| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21, Hydref, 2010.** |
| **PWNC** | **CYNLLUN LWFANSAU AELODAU.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |

1. Yn ei gyfarfod ar y 15fed o Orffennaf, 2010, wrth drafod y Pwyllgor Cynllunio newydd, fe benderfynodd y Cyngor fel a ganlyn ynglŷn â lwfansau ....”Cymeradwyo’r newidiadau i’r Cynllun Lwfansau Aelodau yn unol â pharagraffau 10 i 12 yn adroddiad y Swyddog Monitro a chyflwyno cais ffurfiol i’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gael talu lwfans cyfrifoldeb arbennig i Gadeirydd Pwyllgor Ardal.”.

2. Gwnaed y cais i’r Panel Annibynnol a bu’n llwyddiannus. Yn Atodiad 1 fe welir copi o lythyr y Panel yn cadarnhau hyn.

3. Yn sgil hyn, a dymuniad y Cyngor i Gadeirydd Pwyllgor Ardal dderbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig, mae angen ystyried y Cynllun Lwfansau. Mae Cynllun Lwfansau diwygiedig yn Atodiad 2. Awgrymir talu lwfans i Gadeirydd Pwyllgor Ardal ar yr un raddfa â Chadeirydd Pwyllgor Craffu, sef £4,546 y flwyddyn.

4. Cyfanswm y gost ar gyfer y tri Pwyllgor Ardal ydi £13,638. Er mwyn cwrdd â’r gost yma oddi fewn i’r gyllideb, byddai yn rhaid gostwng lwfansau eraill. Yr unig opsiwn arall i’r Cyngor ydi rhoi bid ariannol ymlaen i’w ystyried yng nghyd-destun bidiau eraill ar gyfer 2011/12 ymlaen.

**ARGYMHELLIAD.**

5. Argymhellir fod y Cyngor yn diwygio y Cynllun Lwfansau Aelodau yn unol at Atodiad 2 er mwyn talu lwfans o £4,546 i Gadeirydd Pwyllgor Ardal ac yn cyflwyno bid ariannol i’w ystyried yng nghyd-destun gweddill cyllideb y Cyngor o 2011 ymlaen.

Mrs D Phillips
Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol
Cyngor Gwynedd
CAERNARFON
Gwynedd LL55 1SH

Eich cyf . Your ref :

Ein cyf . Our ref : qA854350
23 Medi 2010

Annwyl Mrs Phillips

**CAIS YNGHYLCH LWFANSAU CYFRIFOLDEB ARBENNIG YCHWANEGOL**

Diolch i chi am eich e-bost dyddiedig 27 Awst a oedd yn amgáu cais eich Cyngor i ehangu ei gynllun lwfansau mewn perthynas â Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig (LCAau).

Yn ei gyfarfod ar 3 Medi, mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi ystyried y ceisiadau a ddaeth i law oddi wrth awdurdodau lleol. Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am y penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'ch cais.

Mae'r Panel wedi cymeradwyo cais eich Cyngor i wneud y swyddi canlynol yn gymwys i gael LCA, yn y band canlynol:-

Cadeiryddiaeth Pwyllgor Ardal Arfon - Band 3
Cadeiryddiaeth Pwyllgor Ardal Dwyfor - Band 3
Cadeiryddiaeth Pwyllgor Ardal Meirionnydd - Band 3

Cynigir y cytundeb hwn ar y ddealltwriaeth nad yw'r taliadau LCA hyn yn golygu bod eich Cyngor yn mynd dros y terfyn uchaf a ganiateir, sef 50%, fel y'i nodir yn Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007. Mae hefyd yn cael ei gynnig ar y ddealltwriaeth nad yw deiliaid y swyddi hyn eisoes yn cael taliadau LCA. Gellir ôl-ddyddio'r taliadau i ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol, neu i'r dyddiad pan gychwynnodd y sawl a benodwyd yn ei swydd, fel y bo'n briodol.

Mae Adroddiad Atodol, a fydd yn rhoi manylion y ceisiadau llwyddiannus, wrthi'n cael ei baratoi, a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

Caroline Thomas

Yr Ysgrifenyddiaeth

Ystafell /Room N07 Ffôn/Tel: 029 2080 1047
Llawr Cyntaf/First Floor Ffacs/Fax: 029 2082 5346
Adeiladau Coron/Crown Buildings Ebost/Email: irpmailbox@wales.gsi.gov.uk
Parc Cathays/Cathays Park www.remunerationpanelwales.org.uk
Caerdydd/Cardiff www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk
CF10 3NQ

# CYNLLUN LWFANSAU AELODAU

# 1 EBRILL 2010 hyd 31 MAWRTH 2011

Mae Cyngor Gwynedd wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddo dan Reoliadau Awdurdodiadau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007, trwy hyn yn gwneud y cynllun isod:-

1. Gellir galw'r cynllun hwn yn Gynllun Lwfansau Aelodau Cyngor Gwynedd a bydd mewn grym am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2011 a'r blynyddoedd ar ôl hynny.

**2. Diffiniadau**

Yn y cynllun hwn

2.1. golyga "Cyngor" Gyngor Gwynedd
2.2. golyga "cynghorydd" aelod o'r Cyngor sy'n gynghorydd
2.3. golyga "blwyddyn" 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth
2.4. golyga "swyddog priodol" y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol
2.5. golyga "Panel" Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
2.6. mae "aelod" yn cynnwys cynghorydd ac aelod cyfetholedig
2.7. golyga "aelod cyfetholedig" berson nad yw'n gynghorydd ond sy'n aelod o un o bwyllgorau'r Cyngor ac sydd â hawl pleidleisio

**3. Lwfans sylfaenol**

3.1. Telir lwfans sylfaenol i bob cynghorydd

3.2. Ni thelir mwy nag un lwfans sylfaenol i unrhyw gynghorydd

**4. Lwfans cyfrifoldeb arbennig**

4.1. Telir lwfans cyfrifoldeb arbennig i'r cynghorwyr canlynol yn rhinwedd eu swyddi fel y nodir isod:

4.1.1. Cadeirydd y Bwrdd/Arweinydd y Cyngor
4.1.2. Uwch Arweinydd
4.1.3. Arweinydd Portffolio
4.1.4. Cadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu, y pwyllgorau craffu eraill a'r pwyllgorau ardal
4.1.5. Cadeirydd y pwyllgorau Archwilio a Thrwyddedu.
4.1.6. O Hydref 2010, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

4.2 Ni thelir mwy nag un lwfans cyfrifoldeb arbennig i unrhyw gynghorydd

5. **<u>Lwfans gofal</u>**

5.1. Telir lwfans gofal i gynghorwyr mewn cysylltiad â threuliau y mae'n angenrheidiol iddynt eu talu am ofal i blant neu ddibynyddion er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel cynghorwyr ac yn amodol ar iddynt gyflwyno cais llwyddiannus am y lwfans yn unol ag amodau a osodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor.

5.2. Ni thelir lwfans gofal i fwy nag un cynghorydd am ofal i'r un plentyn neu ddibynnydd

5.3. Ni thelir lwfans gofal mewn perthynas â gofal i blentyn sydd dros 15 mlwydd oed

5.4. Ni thelir mwy nag un lwfans gofal i unrhyw gynghorydd.

6. **<u>Lwfans aelod cyfetholedig</u>**

6.1. Telir lwfans aelod cyfetholedig i aelodau cyfetholedig sy'n cadeirio'r Pwyllgor Safonau, sy'n aelodau o'r pwyllgor safonau neu sy'n aelodau (at ddibenion addysg) o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

7. **<u>Lwfansau teithio a chynhaliaeth</u>**

7.1. Telir lwfansau teithio a chynhaliaeth i aelodau lle bo gwariant angenrheidiol wedi ei wneud ar deithio neu gynhaliaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau a gymeradwywyd ac ar dderbyn cais priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor ar hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth.

8. **<u>Swm y lwfans</u>**

8.1. Bydd swm bob lwfans yn cael ei osod o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ac yn ymddangos yn yr Atodlen i'r cynllun hwn.

8.2. Ni fydd swm y lwfans yn uwch na'r hyn a ragnodir gan y Panel mewn adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol mewn cysylltiad â'r lwfans hwnnw ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

8.3. Bydd swm y lwfans yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r addasiad a ragnodir gan y Panel ar gyfer y lwfans hwnnw am y flwyddyn honno.

9. **<u>Gwrthod</u>**

**9.1.** Caiff aelod ddewis gwrthod unrhyw ran o'i hawl i lwfans dan y cynllun hwn trwy hysbysu'r swyddog priodol mewn ysgrifen.

10. **<u>Ataliad</u>**

10.1. Pan fydd aelod wedi ei atal dros dro neu'n rhannol rhag cyflawni ei gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel aelod o'r Cyngor yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu reoliadau a wneir o dan y Rhan honno, bydd y Cyngor yn gwrthod talu'r rhan honno o unrhyw lwfans sy'n daladwy i'r aelod mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu ddyletswyddau y mae wedi ei atal rhag eu cyflawni.

**11. Diwygiadau a hawliadau rhan o flwyddyn**

11.1. Gall y Cyngor ddiwygio neu ddirymu'r cynllun hwn ar unrhyw adeg. Os bydd diwygiad yn effeithio ar lwfans sy'n daladwy am y flwyddyn y gwneir y diwygiad ynddi yna (oni phenderfynir i'r gwrthwyneb gan y Cyngor) bydd yr hawl i'r lwfans yn gymwys o ddechrau'r flwyddyn y gwneir y diwygiad ynddi.

11.2. Effaith darpariaethau canlynol y paragraff hwn yw rheoli hawl cynghorydd i lwfansau sylfaenol neu arbennig lle penderfynir diwygio'r cynllun hwn yn ystod blwyddyn neu lle bo cynghorydd yn ystod blwyddyn yn dod yn gynghorydd neu'n peidio â bod yn gynghorydd.

11.3. Pe bai diwygio'r cynllun hwn yn newid y swm y mae gan gynghorydd hawl iddo fel lwfans sylfaenol neu arbennig yna mewn perthynas â phob un o'r cyfnodau

(a) gan ddechrau gyda'r flwyddyn a chan ddiweddu gyda'r diwrnod cyn y diwrnod y daw'r diwygiad cyntaf yn y flwyddyn honno i rym, neu

(b) gan ddechrau gyda'r diwrnod pryd y daw diwygiad i rym a chan ddiweddu gyda'r diwrnod cyn y diwrnod pryd y daw'r diwygiad nesaf i rym neu (onid oes un) gyda'r flwyddyn.

Yr hawl fydd ganddo/i i lwfans o'r fath fydd yr hawl i dderbyn y rhan honno o swm y lwfans dan y cynllun hwn, sy'n ddilys yn ystod y cyfnod perthnasol ac sydd yr un gyfran o'r cyfanswm ag yw nifer y dyddiau yn y cyfnod i nifer y dyddiau yn y flwyddyn.

11.4 Lle bo tymor cynghorydd mewn swydd yn dechrau neu'n gorffen heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, yr hawl fydd ganddo/i i lwfans sylfaenol fydd yr hawl i dderbyn y rhan honno o'r lwfans sylfaenol sydd yr un gyfran o'r cyfanswm ag yw nifer y dyddiau tra bydd ei (d)thymor mewn swydd yn parhau i nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

11.5 Lle diwygir y cynllun hwn yn unol ag is-baragraff 11.3, a lle nad yw tymor cynghorydd mewn swydd yn parhau gydol y cyfnod a nodir yn is-baragraff 11.3(a), yr hawl fydd ganddo/ganddi i lwfans sylfaenol fydd yr hawl i dderbyn y rhan honno o'r lwfans sylfaenol y gellir ei phriodoli i bob cyfnod o'r fath (a benderfynir yn unol â'r is-baragraff hwnnw) sydd yr un gyfran o'r cyfanswm ag yw nifer y dyddiau y bydd ei (d)thymor yn parhau fel cynghorydd i nifer y dyddiau yn y cyfnod hwnnw.

**12. Hawlio a derbyn tâl**

12.1. Rhaid gwneud cais am lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ysgrifenedig erbyn diwedd yr wythnos lawn gyntaf mewn unrhyw fis. Ni thelir y lwfansau hyn ar gyfer unrhyw fis ond y ddau fis calendr yn union cyn cyflwyno'r cais. Awdurdodir y swyddog priodol i ganiatáu ceisiadau hwyr mewn achosion eithriadol o salwch neu absenoldeb tymor hir.

12.2. Rhaid i gais am lwfansau gynnwys, neu raid gosod ynghlwm wrtho, ddatganiad gan yr aelod sy'n hawlio'r lwfans nad yw wedi ac na fydd yn gwneud unrhyw gais perthynol i'r mater y cyfeiria'r cais ato heblaw o dan y cynllun.

12.3. Telir lwfansau yn fisol ar ddyddiad a enwir gan y swyddog priodol, ac mewn deuddeg o randaliadau yn achos lwfansau sylfaenol, cyfrifoldeb arbennig ac aelod cyfetholedig.

12.4. Lle bo'r hawl i dderbyn lwfans yn dechrau neu'n gorffen yn ystod mis, rhaid addasu'r taliad i'r cynghorydd er mwyn sicrhau nad yw'r swm a dderbynnir yn y flwyddyn yn fwy na'r hyn y mae ganddo/i hawl iddo dan baragraff 11.

12.5. Rhaid gwneud cais am lwfans gofal yn ysgrifenedig erbyn diwedd yr wythnos lawn gyntaf mewn unrhyw fis gan atodi derbynebau am y gwariant.

12.6. Pan fydd unrhyw lwfans wedi ei dalu eisoes mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod wedi ei atal dros dro neu yn rhannol, neu yn peidio â bod yn aelod o’r Cyngor neu heb fod â hawl mewn unrhyw ffordd arall i dderbyn y lwfans mewn cysylltiad â’r cyfnod hwnnw bydd yn ofynnol i’r rhan o’r lwfans sy’n berthnasol i’r cyfnod hwnnw gael ei had-dalu.

**ATODLEN**

**CYFRADDAU LWFANSAU AELODAU CYNGOR GWYNEDD 2010/11**

| | |
|---|---|
| **Lwfans sylfaenol** | £12,747 |
| | |
| **Lwfansau cyfrifoldeb arbennig** | |
| Arweinydd y Cyngor / Cadeirydd y Bwrdd | £17, 508 |
| Uwch Arweinydd | £ 8,115 |
| Arweinydd Portffolio | £ 6,853 |
| Cadeiryddion y Prif Bwyllgor Craffu, pwyllgorau craffu eraill a phwyllgorau ardal | £ 4,546 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | £ 4,546 |
| Cadeirydd y pwyllgorau Archwilio a Thrwyddedu | £ 2,272 |
| | |
| **Lwfans gofal** (swm y mis) | £ 403 |
| | |
| **Lwfansau aelodau cyfetholedig** | |
| Lwfans Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | £ 1,486 |
| Lwfans aelod cyfetholedig | £ 779 |
| | |
| **Lwfansau dinesig** (nad ydynt yn rhan o'r cynllun) | |
| Cadeirydd y Cyngor | £ 4,546 |
| Is-gadeirydd y Cyngor | £ 2,272 |

**Lwfansau teithio**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur preifat (hyd at 10,000 milltir) | 40 ceiniog y filltir |
| Cerbydau modur preifat (dros 10.000 milltir) | 25 ceiniog y filltir |
| Tâl atodol am gludo teithwyr (ar gyfer bob teithiwr) | 5 ceiniog y filltir |
| Beiciau modur preifat | 24 ceiniog y filltir |
| Beiciau pedal | 20 ceiniog y filltir |

**Lwfansau cynhaliaeth**

Ad-delir y gwir gost ar dderbyn derbynneb hyd at yr uchafsymiau isod:

| | |
|---|---|
| Swm dyddiol am gynhaliaeth | £ 28 |
| Llety dros nos (Llundain) | £150 |
| Llety dros nos (Caerdydd) | £120 |
| Llety dros nos (mannau eraill) | £ 95 |
| Aros gyda ffrindiau neu deulu (heb dderbynneb) | £ 25 |